



Ymgynghoriad ar

ADOLYGU DARPARIAETH
DOSBARTHADAU CYNNAL DYSGU YN
RHONDDA CYNON TAF

Tachwedd 2019

Cynnwys

Rhan 1

- Cyflwyniad
- Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori?
- Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?
- Yr hyn fydd angen i chi'i ystyried nawr
- Lleisio'ch barn

Adran 2

- Cefndir
- Trosolwg o'r Cynigion
- Beth yw sail y cynnig yma?
- Beth yw'r achos addysgol dros y cynnig i aildrefnu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu?
- Beth yw goblygiadau ariannol y cynnig?
- Beth fydd effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion yr ysgolion?
- Beth fydd effaith debygol y cynnig ar y staff sy'n darparu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu?
- Beth fydd effaith debygol y cynnig ar gymunedau lleol?
- Beth yw anfanteision y cynnig yma?
- Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?
- Aseidiadau Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg

Adran 3

- Dosbarthiadau rydyn ni'n cynnig eu hagor
- Gwybodaeth gefndirol am y cynnig i agor Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd
- Gwybodaeth am yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio gan y cynigion

Atodiadau

- Atodiad 1: Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad
- Atodiad 2: Aseiad o Effaith y Cynnig ar y Gymraeg
- Atodiad 3: Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Atodiad 4: Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned

Rhan 1

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn awyddus i nodi barn amrywiaeth eang o'i randdeiliaid ynglŷn â'r cynigion ar gyfer aildrefnu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn darpariaeth addysg brif ffrwd y sir.

Mae'r cynigion yn ceisio mynd i'r afael â'r cynnydd mewn gwaharddiadau o'r ysgol a'r galw am leoliad Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol arbenigol (SEBD) yng Nghyfnod Allweddol 3/4 a'r angen i greu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol Cymraeg, yn unol â gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i ddarparu system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) dwyieithog.

Diben y cynigion yw ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- gwella continwwm y ddarpariaeth sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â'r angen am ddarpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol arbenigol yng Nghyfnod Allweddol 3/4;
- greu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion gydag ADY;

Er mwyn cyflawni'r nodau yma, mae'r cynigion yn cynnwys y newidiadau canlynol:

Datblygu darpariaethau newydd arfaethedig

Rydyn ni'n cynnig sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3/4 ym mis Medi 2020:

- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog sydd â lle i 12 o ddisgyblion;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog sydd â lle i 12 o ddisgyblion;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Aberpennar sydd â lle i 12 o ddisgyblion;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol yn Ysgol Garth Olwg sydd â lle i 14 o ddisgyblion.

Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori?

Byddwn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff Llywodraethu, rhieni, cynhalwyr a staff yr ysgolion canlynol: Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gymuned Glynrhedynog, Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Garth Olwg
- Cyrff Llywodraethu, rhieni/cynhalwyr disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd yn nalgylch yr ysgolion uwchradd arfaethedig

- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Menter Iaith
- Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Estyn
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Undebau llafur athrawon a staff cymorth
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Y Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Awdurdodau Lleol Cyfagos
- SNAP Cymru

Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 10 Ionawr 2020 a chaiff ei gwblhau am 5pm ar 28 Chwefror 2020. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei gasglu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Mawrth 2020. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau ar gael ar gais gan ddefnyddio'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi ar www.rctcbc.gov.uk.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylai fwrw ymlaen â'r cynnig, newid y cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiadau Statudol yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2020, gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaidd** eu cyflwyno'n ysgrifenedig / drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o gyfarfod Cabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny. Yn achos y cynnig yma, y dyddiad gweithredu yw 1 Medi 2020.

Yr hyn fydd angen i chi'i ystyried nawr

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yn nodi'r rhesymeg dros y newid arfaethedig i Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf.

Hoffen ni i chi ystyried yr wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y ddogfen yma, a chlywed eich barn ynglŷn ag a ydych chi'n cefnogi'r cynigion yma ai peidio.

Lleisio'ch barn

Mae'r holiadur ar gyfer yr ymgynghoriad wedi'i atodi (Atodiad 1). Yn ogystal â hynny, mae modd ei lawrlwytho o wefan y Cyngor, sef www.rctcbc.gov.uk. Mae'r holiadur hefyd yn fodd i chi gofrestru'ch dymuniad i gael eich hysbysu am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad i Gabinet y Cyngor. Bydd cyfle i ysgolion ymgynghori â'u disgyblion, ac rydyn ni'n eu hannog i weithio gyda chynrychiolwyr y Cyngor Ysgol er mwyn nodi barn y disgyblion. Yn ogystal â hynny, mae modd i chi nodi'ch barn yn ysgrifenedig, a'i anfon at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ

Ffôn: (01443) 744333 e-bost: CynaMyn@rctcbc.gov.uk

Ffacs: (01443) 744024

Dylai'r holl ohebiaeth ddod i law ar 28 Chwefror 2020 fan bellaf.

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau. Bydd y ddogfennaeth ymgynghori yn cael ei dosbarthu yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd achlysuron ymgynghori yn cael eu cynnal, a bydd croeso i chi ddod i'r cyfarfod priodol.

Achlysuron Ymgynghori

Dyma'r cyfarfodydd ymgynghori sydd i'w cynnal:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp	Amser	Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Garth Olwg	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	13 Ionawr 2020	Ysgol Garth Olwg
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	14 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gymuned Glynrhedynog	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	15 Ionawr 2020	Ysgol Gymuned Glynrhedynog
Ysgol Gyfun Aberpennar	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	16 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Aberpennar

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp	Amser	Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Garth Olwg	Cyngor yr Ysgol	9.30am - 10.30am	20 Ionawr 2020	Ysgol Garth Olwg
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyngor yr Ysgol	11.30am – 12.30pm	20 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gymuned Glynrhedynog	Cyngor yr Ysgol	9.30am - 10.30am	21 Ionawr 2020	Ysgol Gymuned Glynrhedynog
Ysgol Gyfun Aberpennar	Cyngor yr Ysgol	2.00pm– 3.00pm	21 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Aberpennar
RhCT	Trigolion RhCT	4.30pm - 6.00pm	22 Ionawr 2020	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen

Adran 2

Cefndir

Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf amrywiaeth wych o ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n golygu bod modd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion fynychu ysgol sy'n agos at eu cartref. Mae'r ddarpariaeth yma'n cynnwys 44 o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd ynghlwm â lleoliadau yn y brif ffrwd, 4 ysgol arbennig a 2 Uned Atgyfeirio Disgyblion. Ar hyn o bryd does gan RhCT ddim darpariaeth ysgol arbennig ar gyfer Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn unig, er bod gan Ysgol Arbennig Maes-gwyn ddisgyblion ag anghenion dysgu cymhleth ac Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Yn ogystal â hyn, caiff £3.3 miliwn ei glustnodi drwy Gyllid Anghenion Ychwanegol bob blwyddyn er mwyn helpu disgyblion sydd ag anghenion difrifol a pharhaus mewn lleoliadau yn y brif ffrwd. Mae hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth Rhondda Cynon Taf ar gyfer addysg hollgynhwysol a hawl disgyblion sydd ag AAA i gael eu haddysgu yn eu hysgol brif ffrwd leol pan fo hynny'n addas.

Mae Cod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) yn nodi canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau awdurdod lleol o ran diwallu AAA plant a phobl ifainc. Mae gan blant a phobl ifainc Anghenion Addysgol Arbennig os oes ganddyn nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarparu addysg arbennig ar eu cyfer. Mae gan blant a phobl ifainc anawsterau dysgu:

- os ydyn nhw'n cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff y rhan fwyaf o blant neu bobl ifainc o'r un oedran;
- os oes ganddyn nhw anabledd sy'n eu hatal nhw neu'n eu rhwystro nhw rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a ddarperir fel arfer i blant o'r un oedran mewn ysgolion yn ardal leol.

Mae Cod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) yn argymhell bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn rhoi ymateb graddedig ar waith o ran diwallu'r anghenion yma. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylai darpariaeth ychwanegol neu wahanol fod ar gael ar lefel Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol neu ar lefel Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu pan gaiff y datganiad Anghenion Addysgol Arbennig ei gyflwyno, yn ddibynnol ar ba mor ddifrifol yw anghenion y plentyn/unigolyn ifanc.

Mae Adran 316A o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi y dylai plant sydd ag AAA gael eu haddysgu yn ysgolion y brif ffrwd fel rheol, ar yr amod eu bod nhw'n dal i allu derbyn y ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n addas ar eu cyfer, bod y disgyblion eraill yn dal i gael eu haddysgu'n effeithlon a bod modd defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae gofyn am leoliadau mwy arbenigol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion mwy sylweddol, ac efallai y bydd hyn yn arwain at leoli'r disgybl yn un o'n darpariaethau arbenigol. Caiff y camau yma eu cymeradwyo gan banelau'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.

Er gwaethaf yr ystod eang o ddarpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd ynghlwm ag ysgolion prif ffrwd, yng ngoleuni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r pryderon parhaus ynghylch gwaharddiadau cynyddol a chynnydd mewn ceisiadau am leoliad Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, teimlir bod angen gwella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfredol i fynd i'r afael â'r uchod materion.

Cadarnhaodd y gwaith dadansoddi data yma fod:

- darpariaeth annigonol yn y sector uwchradd ar gyfer pobl ifainc sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol;
- diffyg darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng nghyd-destun yr uchod, mae'r cynigion ar gyfer newid yn ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- gwella continwwm y ddarpariaeth sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â'r angen am ddarpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol arbenigol yng Nghyfnod Allweddol 3/4;

- creu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol;

Trosolwg o'r Cynigion

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ar y cynigion i fwrw ymlaen â sefydlu pedwar Dosbarth Cynnal Dysgu fydd yn weithredol 1 Medi 2020:

- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Aberpennar;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Garth Olwg.

Beth yw sail y cynnig yma?

Mae Adran 315 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau sy'n cefnogi disgyblion sydd ag AAA, yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn diwallu anghenion y gymuned. Mae data gwaharddiad ac ymyrraeth gorfforol gadarnhaol yn awgrymu'n glir y bu cynnydd sylweddol yn lefel yr ymddygiad heriol sy'n cael ei ddangos yn ein hysgolion. Mae'r galw am leoliadau arbenigol yn llawer mwy na'r cyflenwad ac mae twf dramatig (290%) mewn atgyfeiriadau at Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol wedi digwydd dros y 5 mlynedd diwethaf.

Mae parhau i ganolbwyntio ar wella safonau mewn ysgolion, yn ogystal â gwella deilliannau pob plentyn a pherson ifanc, yn flaenoriaeth i'r Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant. Yng ngoleuni Agenda Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru a gweledigaeth y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn ei ysgolion trwy ymateb yn rhagweithiol i strategaethau cenedlaethol a lleol, megis Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf a chynllun Ysgolion yr 21^{ain} ganrif cyfredol i gynyddu a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg RhCT, mae'n hanfodol gwella'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg Cyfredol o fewn RhCT.

Bydd y cynnig yma i gael Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ychwanegol yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd cynhwysiant mwy effeithiol mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol a disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol.

Caiff pwysigrwydd cynnwys disgyblion sydd ag AAA yn y brif ffrwd ei adlewyrchu yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Mae'r fframwaith yma'n nodi y dylech chi ystyried y cynnydd a gaiff ei wneud tuag at y nodau dysgu sydd wedi'u cytuno o fannau cychwyn unigol wrth feirniadu cyflawniad pob disgybl, gan gynnwys y rheiny sydd ag ADY. Yn ogystal â hynny, mae'r fframwaith yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae modd i arbenigedd o fewn Dosbarth Cynnal Dysgu ei gael ar wella ymarfer a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sydd ag AAA ym mhob rhan o'r ysgol. Mae'r cynigion yn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio yn y modd gorau posib, ac yn sicrhau ein bod ni'n darparu continwwm teg ar gyfer disgyblion sydd ag AAA sylweddol.

Beth yw'r sail addysgol ar gyfer y cynigion yma i greu rhagor o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu?

Mae'r buddiannau sydd i'w cael o roi'r newidiadau yma ar waith yn cynnwys:

- rhagor o ffocws ar wella'r ddarpariaeth o ran Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, sy'n rhoi cyfleoedd bywyd gwerthfawr i'r disgyblion hynny sydd fwyaf agored i niwed
- darparu continwwm priodol sy'n cyd-fynd â phrif anghenion y disgyblion
- cydymffurfio ag un o brif egwyddorion Cod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sef y dylai pob disgybl allu manteisio ar addysg y brif ffrwd lle bo modd gwneud hynny
- deilliannau addysgol gwell a chyswllt gwell gyda'r disgyblion am ein bod ni'n diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol
- rhagor o gyfleoedd o ran cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd mewn ysgolion cymuned lleol
- sicrhau bod Dosbarthiadau Cynnal Dysgu wedi'u lleoli mewn safleoedd addysgol sy'n hygyrch ac yn briodol ar gyfer disgyblion sydd ag amrywiaeth eang o anghenion, gan gynnwys anghenion corfforol a meddygol
- gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau ac adnoddau dysgu sydd ar gael er budd y disgyblion i gyd
- cydymffurfio ag un o nodau craidd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i greu system ADY dwyieithog
- mae'r ddarpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu gwell yn cael eu cynnal gan ysgolion sydd â'r gallu i ddatblygu dosbarthiadau ychwanegol oherwydd bod lleoedd dros ben gyda nhw. Mae modd i'r rhain ddarparu lleoedd ar gyfer disgyblion ychwanegol a fydd yn cael eu lleoli yn yr ysgolion.

Beth yw goblygiadau ariannol y cynnig?

Os caiff y cynnig yma gan yr Awdurdod Lleol ei gymeradwyo, caiff hynny effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sydd ag AAA ledled Rhondda Cynon Taf, a hynny am fod cyllid yn cael ei atgyfeirio i sefydlu dosbarthiadau sy'n mynd i'r afael â meysydd lle mae anghenion cynyddol. Bydd y cynnig yn sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol yn parhau i ymrwymo i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag AAA yn effeithiol. Byddwn ni'n ail-fuddsoddi adnoddau er mwyn llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes a gwella ansawdd y ddarpariaeth ledled Rhondda Cynon Taf.

Caiff arian digonol ei glustnodi ar gyfer yr ysgolion er mwyn sefydlu'r dosbarthiadau arfaethedig. Bydd yr arian yma yn talu am gostau staffio a chostau yn ôl y pen. Dydy'r cynigion ddim yn cynnwys trosglwyddo na chael gwared ar unrhyw dir.

Bydd creu pedwar Dosbarth Cynnal Dysgu yn arwain at gost cludo yn unol â Pholisi Teithio gan Ddysgwyr y Cyngor. Serch hynny, mae'r cynnydd yma mewn cost yn cael ei ystyried yn anghenraid er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwyaf agored i niwed RhCT. Does dim modd rhagweld costau ar hyn o bryd gan fod lleoliadau yn cael eu harwain gan ddisgyblion. Serch hynny, bydd y panel lleoli bob amser yn ceisio gosod disgybl yn y Dosbarth Cynnal Dysgu agosaf sy'n diwallu ei ADY.

Beth fydd effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion yr ysgolion?

Mae'n cael ei ragweld bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sydd angen lleoliad arbenigol a disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol drwy ddarparu model cynhwysol o ddarpariaeth arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd a all ddiwallu eu hanghenion a nodwyd yn eu cymuned leol.

Caiff trafndiaeth ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Efallai bydd gofyn i ddisgyblion sy'n cael eu gosod mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu deithio allan o'r dalgylch ond bydd cynyddu nifer y dosbarthiadau o'r fath yn rhoi opsiynau ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. Yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
2. Yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a'u cam-fanteisio arnyn nhw;
4. Yn cael mynediad i weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. Yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. Â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
7. Heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Rydyn ni o'r farn bod y cynnig yma o fudd i blant yn y cymunedau dan sylw yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u nodi uchod.

Beth fydd effaith debygol y cynigion ar y staff sy'n darparu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu?

Fydd dim effaith negyddol ar staff sy'n darparu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar hyn o bryd gan fydd y cynigion ddim yn effeithio ar y dosbarthiadau o'r fath sy'n bodoli'n barod. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol gan greu pedair swydd addysgu ac

wyth swydd Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd ddim yn swyddi addysgu. Bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd i'r staff presennol ddatblygu.

Beth fydd effaith debygol y cynnig ar gymunedau lleol?

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gwblhau ac mae wedi'i gynnwys fel atodiad. Bydd y cynnig ddim yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol - bydd modd i ragor o blant lleol fanteisio ar ddsbarthiadau arbennig o fewn eu cymuned leol, a bydd y dosbarthiadau newydd yma yn llenwi'r bwlch sydd wedi'i nodi yn y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Bydd ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/cynhalwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn gwella gallu cyffredinol yr ysgol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny am fod rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn yr ysgol.

Yn ogystal, mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg wedi'u cwblhau ar gyfer y cynnig yma ac maen nhw ynghlwm fel atodiadau. Caiff y rhain eu diweddarau ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cynnwys y materion perthnasol hynny sydd wedi codi ac sydd angen cael eu hystyried. Caiff yr asesiad ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor yn yr adroddiad sy'n nodi'r adborth sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r cynnig yma.

Beth yw anfanteision y cynnig yma?

Bydd rhoi'r cynllun yma ar waith o fudd i ddisgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol a disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol ledled Rhondda Cynon Taf, a bydd yn sicrhau rhagor o gydraddoldeb a mynediad at ddarpariaeth arbenigol.

Mae'n bosibl bydd creu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd yn achosi aflonyddwch cyfyngedig i ysgolion prif ffrwd sy'n cynnal y dosbarthiadau hyn am gyfnod. Serch hynny, mae'n cael ei gydnabod bod cynnal Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol yn cael effaith gadarnhaol ar wella arfer a gwella canlyniadau i ddisgyblion ag AAA ar draws yr ysgol gyfan.

Mae'r Cyngor o'r farn bod manteision addysgol y cynigion yn gorbwyso effaith tymor byr y newidiadau ar gyfer disgyblion a rhieni.

Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?

Yng ngoleuni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a phryderon ynghylch gwaharddiadau cynyddol a chynnydd mewn ceisiadau am leoliad Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, byddai gwneud dim yn golygu na fyddai RhCT yn cwrdd â'i ofyniad statudol i fodloni ADY a nodwyd ar gyfer rhai o'i ddisgyblion mwyaf agored i niwed.

Mae angen amlwg am y ddarpariaeth yma yn Rhondda Cynon Taf, a byddai mynd i'r afael â'r mater yma o fudd i blant a phobl ifainc. Cafodd y syniad o ailgyfeirio adnoddau er mwyn gwella gallu ysgolion y brif ffrwd i ddiwallu anghenion mewn ysgolion cymunedol lleol ei ystyried. Serch hynny, byddai modd i hyn wneud y continwmm yn fwy tameidiog, gan arwain at ragor o bwysau ar ysgolion arbennig ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion.

Er ein bod ni wedi ystyried dewisiadau eraill, dydyn ni ddim wedi bwrw ymlaen â nhw am fod manteision amlwg i'w cael o roi'r newidiadau yma ar waith. Byddai modd cysylltu ag ysgolion uwchradd eraill er mwyn sefydlu darpariaeth arbenigol. Serch hynny, dewiswyd Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gymuned Glynrhedynog, Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Garth Olwg oherwydd eu harfer cynhwysol a'u llwyddiant wrth gefnogi disgyblion ag AAA yn y capasiti prif ffrwd a'u capasiti ychwanegol. Yn ogystal â hynny, bydd lleoliad y lleoliadau yma yn mynd i'r afael ag anghenion y bobl leol. Byddai sefydlu'r dosbarthiadau yma yn lleihau'r galw am leoliadau mewn ysgolion arbennig/Unedau Atgyfeirio Disgyblion y mae modd eu diogelu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu, meddygol a chorfforol mwy cymhleth. Serch hynny, rydyn ni'n rhagweld y dylai'r galw am leoliadau gofal dwys leihau o ganlyniad i ymyrraeth gynnar ac atal. Bydd adolygiad pellach o'r ddarpariaeth Unedau Atgyfeirio Disgyblion yn y sir yn cael ei gynnal maes o law.

Asesiadau Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg

Paratowyd Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, yr Effaith ar Gydraddoldeb a'r Effaith ar y Gymraeg mewn perthynas â'r cynnig yma ac maen nhw ynghlwm fel atodiadau. Cyhoeddir copïau hefyd ar wefan y Cyngor. Mae modd cael copïau caled trwy e-bostio cais at CynaMyn@rhondda-cynon-taf.gov.uk neu drwy ffonio 01443 744333.

Adran 3

Dosbarthiadau rydyn ni'n cynnig eu hagor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnig creu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu canlynol o 1 Medi 2020:

- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog sydd â lle i 12 o ddisgyblion;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog sydd â lle i 12 o ddisgyblion;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Aberpennar sydd â lle i 12 o ddisgyblion;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol yn Ysgol Garth Olwg sydd â lle i 14 o ddisgyblion.

Gwybodaeth gefndirol am y cynnig i agor Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd

Mae gwella ansawdd addysg a chodi safonau yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Rydyn ni o'r farn y bydd gwella safonau a deilliannau addysgol ar gyfer rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd, mynediad i fyd gwaith a llwybrau addysg eraill. Mae sicrhau bod ein darpariaethau yn cyd-fynd ag anghenion ein disgyblion yn hanfodol er mwyn cyflawni deilliannau cadarnhaol.

Un o'r prif dargedau a gafodd eu hamlinellu yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yw cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei waith o fodloni targed Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Rydyn ni o'r farn y bydd y cynnig yma'n mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn caniatáu i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol aros mewn lleoliad addysg gyfrwng Cymraeg a gweithio tuag at Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor. Mae cyfraddau gwaharddiadau cynyddol o fewn RhCT yn destun pryder. Mae datblygu tair darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn ceisio mynd i'r afael â'r pryder yma a'r pryder bod galw cynyddol am ddarpariaeth o'r fath mewn ysgolion uwchradd.

Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cael eu lleoli mewn ysgolion prif ffrwd mewn adeiladau addas. Trwy leoli darpariaeth arbenigol mewn lleoliadau prif ffrwd, bydd cyfle i ddisgyblion gael rhagor o gynhwysiant. Yn ogystal â hynny, mae'r fframwaith yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae modd i arbenigedd o fewn Dosbarth Cynnal Dysgu ei chael ar wella ymarfer a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion sydd ag AAA ym mhob rhan o'r ysgol.

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod Lleol Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn 8 o'r 17 darpariaeth ganol / uwchradd gyda dau Ddosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Nant Gwyn. Bydd y tri Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn gwella'r ddarpariaeth gyfredol trwy ddarparu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd sefydlu'r Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol yn mynd i'r afael â'r bwlch cyfredol yn y ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.

Gwybodaeth am yr ysgolion sydd wedi'u heffeithio gan y cynigion

Ysgol Gyfun Bryncelynnog

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog wedi'i lleoli ar Heol Penycoedcae, Y Beddau, Pontypridd, CF38 2AE. Mae'r ysgol yn ysgol gyfun cyfrwng Saesneg cymysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae safle'r ysgol yn gymysgedd o adeiladau Fictoraidd, adeiladau Rhaglen Arbennig Consortiwm Awdurdodau Lleol (CLASP) ac adeilad gweddol newydd. Mae arolwg cyflwr adeiladau'r ALI yn adrodd bod yr ysgol yn y

categori C+. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol Ddosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion gyda Anhwylder y Sbectwm Awtistig.

Rhagolygon o ran nifer y disgyblion

Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gyfun Bryncelynnog rhwng 2019 a 2021 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gyfun Bryncelynnog eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

Enw'r Ysgol	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	1046	1044	1088	1126	1179	1207	1248	1283	1307	1297

Capasiti: 1442

Ansawdd a safonau

Cafodd Ysgol Gyfun Bryncelynnog ei harchwilio gan Estyn ddiwethaf ym mis Chwefror 2016. Dyma grynodeb o'r sylwadau isod:

Cyflawniad cyfredol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon yr ysgol o ran gwella	Da

Mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog wedi'i chategoreiddio fel ysgol werdd. Mae hyn yn eu diffinio nhw fel ysgolion sy'n 'effeithiol, gwneud yn dda yn barod, gwybod y meysydd sydd angen eu gwella, ac mae potensial i wneud yn well trwy bennu'r cymorth cywir a gweithredu'.

Dylid nodi bod y ffigurau yn y tabl uchod yn seiliedig ar y ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf. Dydyn nhw ddim yn adlewyrchu'r newidiadau a ddaw i rym ym mis Medi 2022 pan fydd capasiti'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn cynyddu. Bydd y newidiadau yma'n dod i rym yn dilyn ymgynghoriad diweddar ar drefniadaeth ysgolion, y penderfynwyd ar ei ganlyniad gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019.

Ysgol Gyfun Aberpennar

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Ysgol Gyfun Aberpennar wedi'i lleoli ar Heol Newydd, Aberpennar, CF45 4DG. Mae'r ysgol yn ysgol gyfun cyfrwng Saesneg cymysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae'r adeilad yn fodern ac mewn cyflwr da. Mae arolwg cyflwr adeiladau'r ALI yn adrodd bod yr ysgol yn y categori B. Does gan yr ysgol ddim Dosbarth Cynnal Dysgu ar hyn o bryd.

Rhagolygon o ran nifer y disgyblion

Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar rhwng 2019 a 2021 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

Enw'r Ysgol	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Ysgol Gyfun Aberpennar	837	859	862	879	930	1008	1067	1082	1082	1093

Capasiti: 1414

Ansawdd a safonau

Cafodd Ysgol Gyfun Aberpennar ei harchwilio gan Estyn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2018. Dyma grynodeb o'r sylwadau isod:

Maes arolygu	Dyfarniad
Safonau	Digonol ac angen gwella
Lles ac agweddau tuag at ddysgu	Digonol ac angen gwella
Profiadau addysgu a dysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arwain a Rheoli	Digonol ac angen gwella

Mae Ysgol Gyfun Aberpennar wedi'i chategoreiddio fel ysgol ambr.

Ysgol Gymuned Glynrhedynog

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Ysgol Gymuned Glynrhedynog wedi'i lleoli ar Deras Excelsior, Y Maerdy, Glynrhedynog, CF43 4AR. Mae'r ysgol yn ysgol gyfun cyfrwng Saesneg cymysg ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Mae'r adeilad mewn cyflwr da. Mae arolwg cyflwr adeiladau'r ALI yn adrodd bod yr ysgol yng nghategori B, ar safle sydd wedi elwa o foderneiddio trwy Raglen Moderneiddio Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Ar hyn o bryd mae Dosbarth Cynnal Dysgu yn yr ysgol sydd â'r nod o gefnogi disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth.

Rhagolygon o ran nifer y disgyblion

Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Gymuned Glynrhedynog rhwng 2019 a 2021 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Gymuned Glynrhedynog eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

Enw'r Ysgol	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Ysgol Gymuned Glynrhedynog	636	608	555	579	589	595	619	617	631	678

Capasiti: 650

Ansawdd a safonau

Cafodd Ysgol Gymuned Glynrhedynog ei harchwilio gan Estyn ddiwethaf ym mis Hydref 2017. Dyma grynodeb o'r sylwadau isod:

Maes arolygu	Dyfarniad
Safonau	Ardderchog
Lles ac agweddau tuag at ddysgu	Da
Profiadau addysgu a dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arwain a Rheoli	Da

Mae Ysgol Gymuned Glynrhedynog wedi'i chategoreiddio fel ysgol felen.

Ysgol Garth Olwg

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Ysgol Gyfun Garth Olwg wedi'i lleoli ar Prif Ffordd, Pentre'r Eglwys, Pontypridd CF38 1DX. Mae hi'n ysgol 3-19 oed cyfrwng Cymraeg newydd, ac mae hi wedi'i lleoli ar safle sydd wedi cael budd o waith moderneiddio drwy'r Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mae arolwg cyflwr adeiladau'r ALI yn adrodd bod yr ysgol yn y categori A. Does gan yr ysgol ddim Dosbarth Cynnal Dysgu ar hyn o bryd.

Rhagolygon o ran nifer y disgyblion

Mae nifer y disgyblion a'r rhagolygon ar gyfer Ysgol Garth Olwg rhwng 2019 a 2021 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n deillio o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, a gaiff ei gynnal bob mis Ionawr. Caiff y rhagolygon ar gyfer Ysgol Garth Olwg eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r niferoedd a gaiff eu dangos yn eithrio disgyblion o oedran meithrin, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Statudol Llywodraeth Cymru.

Nifer y disgyblion a'r rhagolygon:

Enw'r Ysgol	2014/15	2015/16	2016/17	2018/19	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Ysgol 11-16 oed Garth Olwg	801	807	803	810	813					
Ysgol 3-16 oed Garth Olwg						1183	1210	1208	1237	1230

Capasiti: Uwchradd 1110, Cynradd 324

Ansawdd a Safonau

Gan fod hon yn ysgol newydd, does dim adroddiadau Estyn ar gael ar hyn o bryd. Dydy'r cynnig yma ddim yn cael effaith negyddol ar unrhyw blentyn. Ei nod yw mynd i'r afael ag angen sydd wedi'i nodi.

Mae Ysgol Garth Olwg wedi'i chategoreiddio fel ysgol felen.

Bydd y cynnig yma yn mynd i'r afael â'r bwloch presennol yn y ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol a disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol.

Ffurflen ar gyfer Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn helpu'r Cyngor i ddod i benderfyniad, byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech chi'n ateb y cwestiynau canlynol. Anfonwch eich ymatebion at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Y Gwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad, Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ neu mae modd eu hanfon drwy ffacs i 01443 744333, neu drwy e-bost i CynaMyn@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Cynnig 1: Creu 3 Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol fydd yn weithredol o 1 Medi 2020:

- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gymuned Glynrhedynog;
- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Aberpennar;

1a. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw Nac ydw Ddim yn siwr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

Cynnig 2: Creu Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg yn weithredol o 1 Medi 2020:

- Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol yn Ysgol Garth Olwg.

1b. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw Nac ydw Ddim yn siwr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis

2. Nodwch unrhyw opsiynau eraill, sylwadau neu faterion eraill yr hoffech chi i ni'u hystyried (mae croeso ichi gynnwys dalennau ychwanegol os oes angen)

3. Sut byddai'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'u Cymraeg a'i hybu (cadarnhaol neu negyddol), ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?

Cadarnhaol neu negyddol

4. Sut byddai modd estyn effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant disgybl mewn ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr ar ysgol sy'n cael ei henwi ac ati)

Enw (dewisol): Rhwch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad

Diolch am roi o'ch amser i gwblhau'r holiadur yma. Anfonwch holiaduron wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad uchod erbyn **5pm 28 Chwefror 2020**. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gadw'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac i'ch hysbysu am sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth. I ddysgu am sut mae'ch preifatrwydd wedi'i ddiogelu a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau i chi, ewch i'n hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau yma:
www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth a thudalennau **diogelu data'r** Cyngor yma: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.

Atodiad 2

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg Cynnig i Wella'r Ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf

Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr asesiad yma'n unol â'r canllawiau wedi'u hamlinellu yn Atodiad C o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn y Fwrdeistref Sirol drwy greu pedwar Dosbarth Cynnal Dysgu newydd. Cynigir bod tri dosbarth yn cael eu creu i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) ac un Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sylweddol.

Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag ADY sylweddol

Ar hyn o bryd mae disgyblion sydd ag AAA sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ag ADY sylweddol a fyddai'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi gan garfan beripatetig arbenigol, trwy fodel cymorth cyflenwi cynhwysol. Yn unol â gofynion Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET), sy'n nodi

bod yn rhaid i bob ALI gynnig darpariaeth ddwyieithog a gweledigaeth y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg, mae ein cynnig yn ceisio creu Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg pwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer mynychu Dosbarth Cynnal Dysgu. Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei gynnal yn Ysgol Garth Olwg, ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed (ar gyfer disgyblion 3-19 oed), sydd wedi elwa o ganlyniad i fuddsoddiad gan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cefnogi 14 o ddisgyblion sydd ag ADY sylweddol. Bydd lleoedd yn y dosbarth yn cael eu dyrannu trwy'r Paneli Lleoli AAA sefydledig.

Fydd y Ganolfan Dysgu Gydol Oes Gymunedol ddim yn cael ei heffeithio gan y cynnig. Yn ogystal, bydd unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan Ysgol Garth Olwg i rieni, disgyblion a'r gymuned er enghraifft clybiau Urdd, brecwast ac ar ôl ysgol ddim yn newid. Mae gwybodaeth am gyflwr ac addasrwydd yr adeilad presennol wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Un o'r prif dargedau a gafodd eu hamlinellu yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yw cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei waith o fodloni targed Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Rydyn ni o'r farn bydd y cynnig yma'n mynd i'r afael â'r diffyg Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg, gan ganiatáu i ddisgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ag ADY sylweddol aros mewn lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg.

Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol

Mae'r cynnig hefyd yn ceisio gwella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ar draws yr ALI trwy greu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Bydd y rhain yn cael eu cynnal gan leoliadau cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gymuned Glynrhedynog ac Ysgol Gyfun Aberpennar. Bydd pob un o'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cymryd 12 disgybl sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Bydd lleoedd yn y dosbarthiadau yn cael eu dyrannu trwy'r Paneli Lleoli AAA sefydledig.

Bydd unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan yr ysgolion (Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gymuned Glynrhedynog ac Ysgol Gyfun Aberpennar) i rieni, disgyblion a'r gymuned er enghraifft clybiau brecwast ac ar ôl ysgol ac ystafelloedd cymunedol ddim yn newid. Mae gwybodaeth am gyflwr ac addasrwydd yr adeilad presennol wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Casgliad

Mae Adran 315 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau sy'n cefnogi pobl sydd ag AAA, yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn diwallu anghenion y gymuned.

Mae parhau i ganolbwyntio ar wella safonau mewn ysgolion a gwella deilliannau pob plentyn ac unigolyn ifanc, yn flaenoriaeth i'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Mae'r cynnig yn

unol ag Agenda Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru a gweledigaeth y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn ei ysgolion trwy ei ymateb rhagweithiol i strategaethau cenedlaethol a lleol.



Cyngor Rhondda Cynon Taf

Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Holiadur

Cynigion ar gyfer Dosbarthiadau Cynnal/Cymorth Dysgu

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Holiadur

Cyfadran: Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Maes Gwasanaeth: Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

Swyddog Cyfrifol: Ceri Jones

Dyddiad: Tachwedd 2019

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma wedi'i ysgrifennu ar y cyd â'r Asesiad Effaith ar y Gymuned, Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Ddogfen Ymgynghori gysylltiedig.

1. Enw'r polisi/gweithdrefn/arfer/cynllun: Gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf.

Bwriad y prosiect yw:

Gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf er mwyn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion cyfredol ac amcanol disgyblion. I gyflawni hyn, y cynnig yw creu 4 Dosbarth Cynnal Dysgu newydd; 3 i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac un i gefnogi disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol.

Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni'n cynnig:

- Creu Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog;
- Creu Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gymunedol Glynrhedynog;
- Creu Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Aberpennar;

- Creu Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol yn Ysgol Garth Olwg.

2 Amcanion y Polisi, rhaid ystyried pam mae angen y polisi? Beth mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni? Sut bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y bwriad?

Mae'r cynnig yma'n cael ei amlinellu'n llawn mewn dogfen ymgynghori fanwl sydd wedi dosbarthu i'r holl bartïon sydd â diddordeb ynnddi yn ogystal â rhanddeiliaid. Mae hefyd modd i unrhyw berson weld neu lawrlwytho'r ddogfen o wefan y Cyngor.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Estyn wedi mireinio ei ddull o arolygu ysgolion ac awdurdodau lleol ac mae'r targed yn uwch mewn perthynas â'r hyn y mae'n ei ystyried yn ddarpariaeth dda a rhagorol. At hynny, mae Estyn wedi cymryd safbwynt llym iawn ar awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â gwendidau mewn meysydd allweddol fel llywodraethu corfforaethol, safonau addysgol, lefelau presenoldeb, lleoedd gwag a diogelu.

Mae ystyriaeth ar gyfer y cynnig yma yn unol â buddsoddiad strategol hir dymor yn rhan o raglen Ysgolion a Cholegau'r 21^{ain} Ganrif. Mae un o'r blaenoriaethau'n cynnwys: mynd i'r afael â'r twf yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae gan Rondda Cynon Taf ystod ragorol o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd wedi'u cysylltu ag ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, yng ngoleuni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys (Cymru) 2018, rhaid edrych ar greu system ddwyieithog i gefnogi dysgwyr ag ADY, er mwyn mynd i'r afael â'r gwaharddiadau cynyddol a'r ceisiadau am leoliadau i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Oherwydd y rhesymau yma cymerwyd y penderfyniad bo'n rhaid ehangu ar ddarpariaeth y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfredol.

Mae'r data sydd wedi'i ddefnyddio gennyn ni er mwyn cysoni'r ddarpariaeth yn cynnwys:

- Capasiti cyfredol pob Dosbarth Cynnal Dysgu
- Ceisiadau am leoliadau dros y 3 blynedd academaidd ddiwethaf
- Data trosiannol
- Anghenion disgyblion cynradd
- Canlyniadau'r ceisiadau am leoliadau

Ystyriaethau addysgol

Mae newidiadau sylweddol ar y gweill yng Nghymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion disgyblion ag AAA/anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys (Cymru) ei chyflwyno ym mis Ionawr 2018. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol (ALI) barhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn eu hardal ac ystyried a ydyn nhw'n ddigonol. Bydd y Ddeddf yn cael ei chefnogi gan reoliadau newydd, gan gynnwys deddfwriaeth eilaidd a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol statudol newydd. Mae'r Cod drafft cyfredol yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- dylai diwallu anghenion disgyblion ag ADY fod yn rhan o ddull ysgol gyfan o wella darpariaeth yr ysgol
- rhaid cefnogi disgyblion i gymryd rhan mewn addysg brif ffrwd a'r Cwricwlwm Cenedlaethol gymaint â phosibl lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.

Hyd nes y bydd y Cod ADY newydd yn dod i rym ym mis Medi 2021, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru (2002) a chyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at blant ag AAA. Mae'r Cod yma'n nodi bod gan blant a phobl ifainc Anghenion Addysgol Arbennig os oes ganddyn nhw anhawster dysgu sy'n galw am ddarparu addysg arbennig ar eu cyfer. Mae'n ofynnol i leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion fabwysiadu ymateb graddedig i ddisgyblion ag AAA yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol a'r Blynyddoedd Cynnal/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn rhan o'r Cod Ymarfer. Ar gyfer dysgwyr sydd â'r AAA mwyaf arwyddocaol, bydd Datganiad AAA yn cael ei roi gan yr ALI a bydd darpariaeth statudol yn cael ei rhoi ar waith.

Ar hyn o bryd mae Rhondda Cynon Taf yn rhoi Cyllid Anghenion Ychwanegol (ANF) gwerth £3.3 miliwn i ysgolion prif ffrwd i sicrhau bod darpariaeth brif ffrwd anstatudol a statudol ar gyfer dysgwyr ag anghenion difrifol a pharhaus yn gadarn ac yn sicrhau bod y disgyblion yma yn aros mewn ysgol brif ffrwd.

Mae disgyblion ag anghenion mwy arwyddocaol, sy'n cael anawsterau o ran ymdopi ag addysg prif ffrwd, yn cael eu rhoi mewn lleoliadau sy'n fwy arbenigol. Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ystod o ddarpariaethau arbenigol sy'n cynnwys, 44 Dosbarth Cynnal Dysgu, 2 Uned Cyfeirio Disgyblion (PRUs) a 4 Ysgol Arbennig. Caiff y camau yma eu cymeradwyo gan banelau'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.

Oherwydd gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys (Cymru) 2018 a'r pryderon ynghylch y cynnydd parhaus yn nifer y gwaharddiadau o ddisgyblion o leoliadau prif ffrwd a'r galw cynyddol am leoliadau ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol arbenigol, cafodd data eu dadansoddi er mwyn llywio cynigion ar gyfer newidiadau.

Roedd y gwaith dadansoddi data yma'n cadarnhau fod:

- dim digon o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn y sector uwchradd
- dim digon o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd ag AAA/ADY sylweddol.

Yng ngoleuni'r canfyddiadau yma, mae'r cynigion ar gyfer newid yn ceisio cyflawni'r nodau canlynol:

- gwella continwwm y ddarpariaeth sy'n mynd i'r afael yn effeithiol â'r angen am ddarpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yng Nghyfnod Allweddol 3/4;
- creu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 cyfrwng Cymraeg sydd ag ADY sylweddol;

Diwygiadau arfaethedig

- Bydd 44 Dosbarth Cynnal Dysgu prif ffrwd yn aros yr un peth
- Bydd Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i ddisgyblion ag AAA yn cael eu hagor

Beth yw goblygiadau ariannol y cynnig?

Bydd y cynnig yn sicrhau bod y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn parhau i ymrwymo i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig yn effeithiol. Byddwn ni'n blaenoriaethu adnoddau er mwyn llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes a gwella ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol ledled Rhondda Cynon Taf.

Caiff arian digonol ei glustnodi ar gyfer yr ysgolion er mwyn sefydlu'r dosbarthiadau arfaethedig. Bydd yr arian yma yn talu am gostau staffio a chostau yn ôl y pen.

Beth fydd effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion yr ysgolion?

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynigion yma'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sydd mewn lleoliad arbenigol a disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ag ADY. Byddwn ni'n darparu model cynhwysol o ddarpariaeth arbenigol fydd yn cael ei gynnal gan ysgolion prif ffrwd a fydd â'r modd i ddiwallu eu hanghenion sydd wedi'u nodi yn y gymuned leol.

Caiff trafnidiaeth ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. Yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
2. Yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl, yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a'u cam-fanteisio arnyn nhw;
4. Yn cael mynediad i weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. Yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. Â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol
7. Heb fod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Rydyn ni o'r farn bod y cynnig yma o fudd i blant yn y cymunedau dan sylw yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u nodi uchod.

Rydyn ni hefyd o'r farn bod y cynnig yma'n cyfrannu'n gadarnhaol at agenda Llesiant Rhondda Cynon Taf yn ogystal â phob un o 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae asesiad o'r cynigion ar bum ffordd o weithio Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol isod:

<p>Hirdymor (Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd)</p>	<p>Sut mae eich prosiect/gweithgaredd yn cydbwysu anghenion y tymor byr â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol?</p> <p>Y weledigaeth hirdymor ar gyfer RhCT yw rhoi'r cyfle gorau posibl i bob dysgwr gyflawni ei botensial llawn trwy gyfrwng addysg trwy ddarparu mynediad i'r cyfleoedd dysgu gorau oll gyda chyfleoeddi modern, hyblyg sy'n briodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd.</p> <p>Bydd gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol yn RhCT yn sicrhau bod anghenion disgyblion ag ADY sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu diwallu.</p>
<p>Camau atal (Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethgu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion)</p>	<p>Sut mae eich prosiect/gweithgaredd chi'n defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethgu?</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau o ddarparu'r cyfleoeddi a'r cyfleoedd i bawb dderbyn addysg ragorol yng nghyfleoeddi'r 21^{ain} Ganrif. Nod y cynnig yma yw darpariaeth y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol sydd ar gael i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3/4, a chreu gwell cyfleoedd ar gyfer datblygu rolau mwy arbenigol a chryfhau ymatebion graddedig i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.</p>
<p>Integreiddio (Ystyried sut mae modd i amcanion lles y cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill)</p>	<p>Sut mae eich prosiect / gweithgaredd chi'n cyflawni cyfuniad o gyflawniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'i gilydd?</p> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel elfen hanfodol i gyflawni ac atgyfnerthu buddion cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y cynnig yma'n cyflwyno Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg pwrpasol ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol, yn cynyddu dewis o ddarpariaeth i rieni ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a chyfranogiad cymunedol ehangach yn ogystal â phrofiad dysgu gwell.</p>
<p>Cydweithio (Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant)</p>	<p>Sut mae eich prosiect/gweithgaredd chi'n cynnwys y gwaith o weithio gyda phartneriaid (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion llesiant?</p> <p>Mae'n ofynnol i RhCT barhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn yr ardal ac ystyried a yw'r rhain yn ddigonol. Nododd adborth gan Grŵp Tasg a Gorffen</p>

	Penaethiaid yn ddiweddar fod diffyg darpariaeth Cynnal Dysgu Cymraeg yn faes pryder. Bydd rhanddeiliaid yn cael cyfle i gyflwyno eu barn yn ystod y cyfnod ymgynghori.
Cynnwys (Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff hwnnw'n ei gwasanaethu)	Sut mae eich prosiect/cyfleuster chi'n cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y broses o gyflawni'r nodau llesiant? Sut mae'r rhanddeiliaid hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal? Mae cyfarfodydd ymgynghori ar y gweill gyda chynghorau myfyrwyr yr holl ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig yn uniongyrchol, yn ogystal â staff a llywodraethwyr, a bydd noson agored mewn lleoliad canolog a fydd ar agor i'r cyhoedd. Bydd y Cabinet yn ystyried yr holl sylwadau sy'n cael eu cyflwyno yn ystod y broses ymgynghori.

Beth yw'r goblygiadau i staff y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu?

Fydd dim unrhyw effaith negyddol ar staff presennol y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu oherwydd fydd dim effaith ar y ddarpariaeth gyfredol. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol, gan greu pedair swydd yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ac wyth swydd heb bwyslais ar addysgu, gan ddarparu cyfleoedd datblygu i'r staff presennol.

Beth yw'r goblygiadau ar y cymunedau lleol?

Fydd y cynnig ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gymunedau lleol, a hynny am y rhesymau a ganlyn:

- Bydd modd i ragor o blant lleol fanteisio ar ddosbarthiadau arbennig o fewn eu cymuned leol, a bydd y dosbarthiadau newydd yma yn llenwi'r bwlch sydd wedi'i nodi yn y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Bydd llai o alw am gludo plant allan o'u hardaloedd lleol er mwyn iddyn nhw gael eu haddysgu, a dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Bydd ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/cynhalwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn gwella gallu cyffredinol yr ysgol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny am fod rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn yr ysgol.

Beth fydd yr effaith ar ysgolion sy'n 'bartneriaid' yn y gymuned?

Bydd ysgolion cynradd ac uwchradd cysylltiedig/partner eraill ym mhob cymuned hefyd yn elwa o'r cynnig. Bydd gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn RhCT yn cryfhau'r ddarpariaeth bresennol ac felly'n darparu 50 o leoliadau arbenigol ychwanegol.

3. I bwy mae'n berthnasol? Nodwch trwy oleuo neu ddileu fel y bo'n briodol

Aelodau o'r Cyhoedd Staff **Y ddau** **Arall**

Rhowch fanylion: Plant AAA 11-16 oed sy'n byw yn RhCT, rhieni a chynhalwyr y plant, aelodau o staff

4. Nodwch a fydd hyn yn gynnig newydd, adolygiad neu ddarfyddiad arfaethedig:

Newydd Adolygiad Darfyddiad arfaethedig

Mae'r cynnig yn cwmpasu'r 3 rhanbarth yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd 4 ysgol yn cael eu heffeithio.

5. Adnabod yr Effaith

Dewiswch a fydd y polisi/arfer yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar **bob un** o'r materion isod: Meddyliwch am y cwestiynau allweddol sy wedi'u cynnwys yng nghanllawiau'r rheolwr.

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
yw ei oedran (hen ac ifanc)	Cyfnod Allweddol 2 Cyfnod Allweddol 3/4		Cyfnod Sylfaen	<ul style="list-style-type: none"> • Trosglwyddo i ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg briodol yng Nghyfnod Allweddol 3/4. • Creu Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg • Lleoliadau priodol sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion sylfaenol disgyblion • Deilliannau addysgol gwell a chyswllt gwell gyda'r disgyblion er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn effeithiol. • Rhagor o gyfleoedd o ran cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd mewn ysgolion cymuned lleol • Gwell continwwm o ddarpariaeth ddysgu sy'n gwella cyfleoedd bywyd i'r dysgwyr sy fwyaf agored i niwed
Anabledd (cofiwch ystyried y mathau gwahanol o anableddau)	✓			Bydd yr adolygiad o ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn caniatáu i'r ALI ddiwallu anghenion ei ddisgyblion AAA yn well. Bydd ysgolion prif ffrwd sy'n cynnal y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth anabledd yn llawn.
Rhyw			✓	
Ailbennu Rhywedd			✓	
Hil			✓	
Crefydd neu Gredo			✓	

Pobl / materion i'w hystyried	A fydd y polisi / arfer yn cael effaith...?			Esboniwch unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol:
	Cadarnhaol	Negyddol	Niwtral (Dim effaith)	
Cyfeiriadedd rhywiol			✓	
Y Gymraeg	✓			Creu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i gefnogi disgyblion ag ADY sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg, a thrwy hynny gefnogi gweledigaeth y Cyngor i gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg yn ei gynllun Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif, Strategaeth yr Iaith Gymraeg, Cymraeg 2050 ac i gydymffurfio â meini prawf Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys (Cymru) 2018 i ddatblygu system ADY ddwyieithog.
Rhieni/Gwarcheidwaid/Cynhalwyr	✓			<ul style="list-style-type: none"> Mwy o botensial i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol briodol. Cynyddu cyfle i rieni/cynhalwyr ddewis darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg briodol.

Tystiolaeth

6. Pa dystiolaeth sy'n cefnogi'ch casgliadau? Nodwch isod

Adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg i'r Cabinet - Rhagfyr 2019.
Dogfen Ymgynghori â'r Cyhoedd ar y Cynnig

7. Ar gyfer meysydd lle mae effaith negyddol wedi cael ei hadnabod, oes modd lleihau'r effaith negyddol neu gael gwared arni? Nodwch isod a chynnwys y dystiolaeth rydych chi wedi'i defnyddio i lunio'ch casgliad.

Doedd dim effeithiau negyddol yn dod i'r amlwg. Bydd rhoi'r cynllun yma ar waith o fudd i bob disgybl ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ledled Rhondda Cynon Taf, ac yn sicrhau rhagor o gydraddoldeb a mynediad at ddarpariaeth arbenigol.

I ddechrau, efallai y bydd creu Dosbarth Cynnal Dysgu newydd yn achosi rhywfaint o aflonyddwch cyfyngedig i'r ysgolion prif ffrwd am gyfnod. Fodd bynnag, bydd creu Dosbarth Cynnal Dysgu yn gwella'r systemau AAA yr ysgol maes o law ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol gyfan yn y pen draw.

Mae'r Cyngor o'r farn bod manteision addysgol y cynigion yn gorbwyso effaith tymor byr y newidiadau ar gyfer disgyblion a rhieni.

Cyfrannu ac Ymgynghori

9. Pa waith cyfrannu ac ymgynghori sy wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r polisi yma (neu bolisiau tebyg) a beth yw'r canlyniadau?

Dyma'r cyfarfodydd ymgynghori sydd i'w cynnal:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp - Disgyblion/Staff/Rhieni	Amser	Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Garth Olwg	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	13 Ionawr 2020	Ysgol Garth Olwg
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	14 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gymuned Glynrhedynog	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	15 Ionawr 2020	Ysgol Gymuned Glynrhedynog
Ysgol Gyfun Aberpennar	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	3.30pm - 4.30pm	16 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Aberpennar

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp - Disgyblion/Staff/Rhieni	Amser	Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Garth Olwg	Cyngor yr Ysgol	9.30am–10.30am	20 Ionawr 2020	Ysgol Garth Olwg
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyngor yr Ysgol	11.30am–12.30pm	20 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gymuned Glynrhedynog	Cyngor yr Ysgol	9.30am–10.30am	21 Ionawr 2020	Ysgol Gymuned Glynrhedynog
Ysgol Gyfun Aberpennar	Cyngor yr Ysgol	2.00pm–3.00pm	21 Ionawr 2020	Ysgol Gyfun Aberpennar
RhCT	Trigolion RhCT	4.30pm - 6.00pm	22 Ionawr 2020	Canolfan Hamdden y Ddraenen Wen

Mae croeso i unigolion a phartïon sydd â diddordeb/buddiant anfon eu sylwadau ysgrifenedig at:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
 Tŷ Trevithick
 Abercynon
 CF45 4UQ

neu e-bostiwrch: CynaMyn@rctcbc.gov.uk

Monitro ac Adolygu

10. Pa drefniadau ydych chi wedi'u rhoi yn eu lle i adolygu effaith y polisi unwaith y bydd e'n cael ei weithredu?

Bydd Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn chwarae rhan lawn yn y broses o gefnogi penaethiaid a chyrrff llywodraethu i sefydlu darpariaethau'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu trwy ei brosesau rheoli llinell a sicrhau ansawdd sefydledig sy'n ymwneud â rheoli'r

darpariaethau yma. Yn unol â gofynion Deddf Cod Ymarfer ac Addysg AAA 1996, bydd yr ALI yn parhau i adolygu ei ddarpariaeth o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr yn RhCT sydd wedi'u nodi ag AAA.

Ystyried yr Effaith

11. Pa opsiwn ydych chi wedi'i ddewis o ganlyniad i'ch asesiad o'r effaith?

- Parhau â'r Polisi

Nodwch resymau ar gyfer eich penderfyniad.

Mae'r dystiolaeth wedi'i hamlinellu yn ein dogfen ymgynghori yn argymhell mai dyma'r ffordd addas o weithredu

12. Cynllun gweithredu

Bydd angen i chi gwblhau cynllun gweithredu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i amlinellu sut byddwch chi'n gweithredu ar unrhyw effaith sy wedi'i hadnabod. Mae'n bosibl y bydd angen blaenoriaethu o ran pa gamau gweithredu rydych chi'n eu dewis a'r amserlenni y byddwch chi'n eu dilyn wrth eu cwblhau. Yn gyffredinol, dylech chi weithredu ar bob effaith negyddol oni bai bod yna reswm pam nad yw hyn yn bosibl. Byddai modd i chi hefyd bennu camau gweithredu ar gyfer effaith gadarnhaol neu negyddol ble y bo'n addas e.e. amlinellu a hyrwyddo effaith gadarnhaol neu amlinellu sut i sicrhau effaith gadarnhaol yn lle effaith niwtral.

Cam(au) Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen ar gyfer Camau Gweithredu	Amserlen a chamau gweithredu i'w hadolygu	Mesurau i'w cymryd i werthuso effeithiau gweithredu
Bydd yr ALI yn ymgymryd â'r broses ymgynghori statudol i weithredu'r cynigion os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo.	Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant	Mawrth 2020		<ul style="list-style-type: none">• Cydymffurfio â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebiad gyda chrynodeb o'r gwrthwynebiad	Pennaeth y Gwasanaethau Cynhwysiant	Ymhen 7 diwrnod gan ddechrau gyda diwrnod y penderfyniad		
Ymgymryd ag unrhyw waith adnewyddu sy'n ofynnol i ddarparu ar gyfer darpariaethau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd	Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor	Medi 2020		

13. Nodwch isod unrhyw effaith negyddol sydd wedi cael ei hadnabod yn yr holiadur ond heb ei nodi yn y cynllun gweithredu. Bydd angen i chi esbonio eich rhesymau am beidio â'i nodi.

Dim.

Cadwch gopi o'r holiadur a'r cynllun gweithredu ac anfon copïau i:

Carfan Materion Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
CF40 2XX

E-bost: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

Ffôn: 01443 424075

Llofnod: Gaynor Davies

Dyddiad: 7 Tachwedd 2019

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r cylchlythyr cyfarwyddyd statudol 011/2018, Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cynnig: Creu Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog;

Mae Rhondda Cynon Taf (RCT) yn cynnig gwella'r ddarpariaeth Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn y Fwrdeistref Sirol trwy greu pedwar Dosbarth Cynnal Dysgu (LSCs) newydd. Y cynnig yw y bydd tri dosbarth yn cael eu creu i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac un dosbarth cyfrwng Cymraeg i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol (ADY).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT yn cynnig creu Dosbarth Cynnal Dysgu Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn dechrau ar 1 Medi 2020. Bydd darpariaeth i 12 disgybl a bydd y penderfyniad i leoli disgyblion yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'n cael ei wneud gan Banel AAA y Gwasanaeth Cynhwysiant.

Bydd ymgynghori ar y cynnig yma yn digwydd rhwng 10 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020. Bydd dogfen ymgynghori fanwl yn cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Bydd copi'au'n cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ymgynghoriad a'r cyhoeddiad. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr holl Aseidiadau Effaith gofynnol ar gael a sut bydd modd i ymgynghoreion gael gafael ar y rhain os bydd angen.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori fydd yn cael ei dosbarthu'n eang; mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r cefndir i'r cynnig yn glir a pham mae hi wedi bod yn angenrheidiol i'w gyflwyno ar yr adeg yma.

Mae creu'r ddarpariaeth newydd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol. Fydd y cynnig yma ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cymunedau lleol gan y bydd mwy o blant lleol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth sy'n agosach i'w cartrefi nhw. Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/cynhalwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn gwella gallu cyffredinol yr ysgol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny am fod rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn yr ysgol.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sydd â'r angen am fod mewn lleoliad arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd fydd yn diwallu eu hanghenion sy wedi'u nodi.

Bydd unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr ysgol i rieni, disgyblion a'r gymuned ar hyn o bryd yn aros yr un fath er enghraifft clybiau brechwast ac ar ôl ysgol.

Caiff trafndiaeth ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Os bydd disgyblion yn cael eu lleoli mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, efallai y bydd gofyn iddyn nhw deithio y tu hwnt i'r dalgylch, ond wrth gynyddu'r ddarpariaeth bydd rhagor o opsiynau yn y dyfodol.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r cylchlythyr cyfarwyddyd statudol 011/2018, Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cynnig: Agor Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) yn Ysgol Gymunedol Glynrhedynog;

Mae Rhondda Cynon Taf (RCT) yn cynnig gwella'r ddarpariaeth Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn y Fwrdeistref Sirol trwy greu pedwar Dosbarth Cynnal Dysgu (LSCs) newydd. Y cynnig yw y bydd tri dosbarth yn cael eu creu i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac un dosbarth cyfrwng Cymraeg i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol (ADY).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT yn cynnig creu Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gymunedol Glynrhedynog gan ddechrau ar 1 Medi 2020. Bydd darpariaeth i 12 disgybl a bydd y penderfyniad i leoli disgyblion yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'n cael ei wneud gan Banel AAA y Gwasanaeth Cynhwysiant.

Bydd ymgynghori ar y cynnig yma yn digwydd rhwng 10 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020. Bydd dogfen ymgynghori fanwl yn cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Bydd copïau'n cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ymgynghoriad a'r cyhoeddiad. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr holl Aseidiadau Effaith gofynnol ar gael a sut bydd modd i ymgynghoreion gael gafael ar y rhain os bydd angen.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori fydd yn cael ei dosbarthu'n eang; mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r cefndir i'r cynnig yn glir a pham mae hi wedi bod yn angenrheidiol i'w chyflwyno ar yr adeg yma.

Mae creu'r ddarpariaeth newydd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol. Fydd y cynnig yma ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cymunedau lleol gan y bydd mwy o blant lleol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth sy'n agosach i'w cartrefi nhw. Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/cynhalwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn gwella gallu cyffredinol yr ysgol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny am fod rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn yr ysgol.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sydd â'r angen am fod mewn lleoliad arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd fydd yn diwallu eu hanghenion sy wedi'u nodi.

Bydd unrhyw wasanaethau sy'n cael ei ddarparu gan yr ysgol i rieni, disgyblion a'r gymuned ar hyn o bryd yn aros yr un fath er enghraifft clybiau brechwast ac ar ôl ysgol.

Caiff trafndiaeth eu darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Os bydd disgyblion yn cael eu lleoli mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, efallai y bydd gofyn iddyn nhw deithio y tu hwnt i'r dalgylch, ond wrth gynyddu'r ddarpariaeth bydd rhagor o opsiynau yn y dyfodol.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r cylchlythyr cyfarwyddyd statudol 011/2018, Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cynnig: Agor Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Aberpennar;

Mae Rhondda Cynon Taf (RCT) yn cynnig gwella'r ddarpariaeth Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn y Fwrdeistref Sirol trwy greu pedwar Dosbarth Cynnal Dysgu (LSCs) newydd. Y cynnig yw y bydd tri dosbarth yn cael eu creu i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac un dosbarth cyfrwng Cymraeg i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol (ADY).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT yn cynnig creu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn dechrau ar 1 Medi 2020. Bydd darpariaeth i 12 disgybl a bydd y penderfyniad i leoli disgyblion yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'n cael ei wneud gan Banel AAA y Gwasanaeth Cynhwysiant.

Bydd ymgynghori ar y cynnig yma yn digwydd rhwng 10 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020. Bydd dogfen ymgynghori fanwl yn cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Bydd copïau'n cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ymgynghoriad a'r cyhoeddiad. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr holl Aseidiadau Effaith gofynnol ar gael a sut bydd modd i ymgynghoreion gael gafael ar y rhain os bydd angen.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori fydd yn cael ei dosbarthu'n eang; mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r cefndir i'r cynnig yn glir a pham mae hi wedi bod yn angenrheidiol i'w gyflwyno ar yr adeg yma.

Mae creu'r ddarpariaeth newydd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol. Fydd y cynnig yma ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cymunedau lleol gan y bydd mwy o blant lleol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth sy'n agosach i'w cartrefi nhw. Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/cynhalwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn gwella gallu cyffredinol yr ysgol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny am fod rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn yr ysgol.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar ddisgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sydd â'r angen am fod mewn lleoliad arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd fydd yn diwallu eu hanghenion sy wedi'u nodi.

Bydd unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr ysgol i rieni, disgyblion a'r gymuned ar hyn o bryd yn aros yr un fath er enghraifft clybiau brechwast ac ar ôl ysgol.

Caiff trafndiaeth ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Os bydd disgyblion yn cael eu lleoli mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, efallai y bydd gofyn iddyn nhw deithio y tu hwnt i'r dalgylch, ond wrth gynyddu'r ddarpariaeth bydd rhagor o opsiynau yn y dyfodol.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r cylchlythyr cyfarwyddyd statudol 011/2018, Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cynnig: Agor Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sylweddol yn Ysgol Garth Olwg.

Mae Rhondda Cynon Taf (RCT) yn cynnig gwella'r ddarpariaeth Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn y Fwrdeistref Sirol trwy greu pedwar Dosbarth Cynnal Dysgu (LSCs) newydd. Y cynnig yw y bydd tri dosbarth yn cael eu creu i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ac un dosbarth cyfrwng Cymraeg i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol (ADY).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT yn cynnig creu Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol yn Ysgol Garth Olwg gan ddechrau ar 1 Medi 2020. Bydd y ddarpariaeth yn cynnwys 14 o ddisgyblion bydd y penderfyniad i leoli disgyblion yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'n cael wneud gan Banel AAA y Gwasanaeth Cynhwysiant.

Bydd ymgynghori ar y cynnig yma yn digwydd rhwng 10 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020. Bydd dogfen ymgynghori fanwl yn cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Bydd copïau'n cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ymgynghoriad a'r cyhoeddiad. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr holl Aseidiadau Effaith gofynnol ar gael a sut bydd modd i ymgynghoreion gael gafael ar y rhain os bydd angen.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori fydd yn cael ei dosbarthu'n eang; mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r cefndir i'r cynnig yn glir a pham mae hi wedi bod yn angenrheidiol i'w gyflwyno ar yr adeg yma.

Mae creu'r ddarpariaeth newydd yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol. Bydd y cynnig yma ddim yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cymunedau lleol gan y bydd mwy o blant lleol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth sy'n agosach i'w cartrefi nhw. Bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn gwneud defnydd effeithiol o unrhyw leoedd dros ben yn yr ysgol, ac yn creu adnodd a fydd o fudd i blant a phobl ifainc sy'n agored i niwed, yn ogystal â'u rhieni/cynhalwyr. Bydd y gwaith arfaethedig o sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma yn gwella gallu cyffredinol yr ysgol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, a hynny am fod rhagor o arbenigedd ym maes Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn yr ysgol.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd a lles disgyblion ag ADY sylweddol sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan y bydd yn gwella'r model cynhwysol cyfredol sy'n cael ei ddarparu gan garfan peripatetig cyfrwng Cymraeg ac yn mynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y ddarpariaeth.

Mae'r Ganolfan Dysgu Gydol Oes ar safle Ysgol Garth Olwg yn darparu cryn dipyn o gyfleusterau cymunedol a fydd yr rhain ddim yn cael eu heffeithio. Bydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr ysgol ar hyn o bryd ar gyfer rhieni, disgyblion a'r gymuned (fel clybiau brecwast, ar ôl ysgol a'r Urdd), ddim yn cael eu heffeithio.

Caiff trafndiaeth ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol. Os bydd disgyblion yn cael eu lleoli mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, efallai y bydd gofyn iddyn nhw deithio y tu hwnt i'r dalgylch, ond wrth gynyddu'r ddarpariaeth bydd rhagor o opsiynau yn y dyfodol.